



YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL

Pennaeth/Head:
Mr Matthew H T Evans

029 2033 3090
ysgolgyfungalantaf@caerdydd.gov.uk
www.glantaf.cymru

9 Medi 2022

Annwyl Riant / Warcheidwad,



Cefnogi Cymru!

Wythnos gyntaf brysur!

Rydym wedi mwynhau wythnos gyntaf brysur, gyda thaith B17 a 12 i gefnogi tîm pêl-droed Cymru i gyrraedd gemau ail-gyfle Cwpan y Byd yn sicr yn uchafbwynt. (Os nad ydych wedi talu am y daith hon oherwydd prinder amser, mae'r manylion ar ParentPay - diolch). Roedd yn braf croesawu disgyblion yn ôl i'r ysgol a gweld eu mwynhad wrth ddychwelyd i gymuned yr ysgol.



Mabli Phillips: Medal Arian Seiclo Pencampwriaeth y DU

Llwyddiannau'r Haf: Eisteddfod Genedlaethol a Chwaraeon

Braf hefyd llongyfarch 4 disgybl wnaeth gynrychioli Cymru ym Mhencampwriaethau Ysgolion Prydain dros yr haf, gyda Iolo Grant (B12) yn 4ydd yn y ras Clwydi 100m, Tomos Williams (B12) ac Emily Savastano (B13) yn nhimau hoci Cymru, ac ennill medalau efydd. Llongyfarchiadau arbennig i Mabli Phillips B10, 2il yn Ras Seiclo y Bencampwriaeth yn ogystal â chipio'r fedal Arian yng Nghyffres Rasmus Seiclo Prydain - ysgubol! Hyfryd hefyd llongyfarch disgyblion Glantaf a lwyddodd ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol, Nansi Rhys-Adams, Lili Mohammed a Heledd Newton (B13 llynedd) a Remy Segrott (Cello) ac Elen Morlais Williams (Dawns Werin) y ddau ym M13. Cafwyd buddugoliaeth i'r Tîm XV 1af yn erbyn Coleg y Cymoedd ar Barc yr Arfau yr wythnos hon a hynny mewn tipyn o steil. Yn olaf, cofiwch am y Noson Wobrwyo Chwaraeon 2021-22, nos Iau, 15/9/22 am 7pm.

Traws Gwlad Llysoedd a gwisg Addysg Gorfforol

Byddwn yn cynnal ein gweithgaredd llysoedd cyntaf eleni, sef Cystadleuaeth Traws Gwlad, ar ddydd Mercher 14eg o Fedi. Dylai disgyblion ddod i'r ysgol yn eu gwisg ymarfer corff neu dracwsg ymarfer a gallant aros yn eu dillad ymarfer corff weddill y dydd. Os bydd angen gohirio oherwydd tywydd gwael, bydd diweddariadau ar trydar ac app Intouch.



Cwrdd â Joe Allen, Canolwr Cymru yn Stadiwm Dinas Caerdydd cyn y gêm fawr

Cinio Ysgol

Mae trefniadau cinio a darpariaeth bwyd amser egwyl / cyn ysgol yn gweithio'n dda a phob disgybl ym M17 wedi gallu cofrestru ar y system bellach. Os oes trafferthion o hyd o ran gweld eich cyfrif ParentPay neu ychwanegu arian i'r system cysylltwch â Mrs D Price ar Priced135@hwbcymru.net Trefn mynediad B17 i'r ffreutur yw: 7Dewi & 7Dyfrig wythnos 2 (yr wythnos nesaf) a 7Illtud & 7Teilo wythnos 1. Bydd pob disgybl B17 yn cael mynediad dyddiol i'r ffreutur o 3 Hydref.

Gwisg ysgol a Safle gwisg ysgol am ddim

Hoffwn ddiolch i bawb am eich cefnogaeth i gadw gwisg ysgol safonol i bob disgybl. Dylai esgidiau a sanau ysgol fod yn ddu heb enw cwmni na logo arnynt. Gofynnwn bod logo ar y trowsus byrion sydd yn gallu cael eu gwisgo gydol y flwyddyn. Dylai disgyblion wisgo sgerbiau â pleats hyd at y benglin.

Cofiwch bod ein safle rhannu gwisg ysgol am ddim ar gael drwy'r ddolen hon: [Gwisg Ysgol Glantaf School Uniform recycling - Home | Facebook](#) Os oes gennych wisg yr hoffech ei chyfrannu i'r ysgol, byddwn yn ddiolchgar am unrhyw wisg da ail law, wedi'i olchi a'r enw wedi'i dynnu o'r eitem. Mae'n wych gweld cymaint o weithgaredd ar y dudalen hon gyda dros 800 o gyfeillion yn cynnig a rhannu gwisg (ac adnoddau) mor effeithiol.

Sesiynau Adolygu Rhifedd BI11 ar gyfer arholiadau TGAU yn Tachwedd

Cynhelir sesiynau adolygu wythnosol am 7 wythnos gan yr adran Fathemateg gan ddechrau ar Ddydd Mawrth, 13 Medi rhwng 3-4pm, i set 3, a Mercher, 14 Medi rhwng 3 - 4pm ar gyfer pawb arall. Diolch am eich cefnogaeth i sicrhau presenoldeb eich plentyn yn y sesiynau adolygu pwysig hyn.

Cysylltu â ni / SiMS Parent App

Rwy'n gobeithio eich bod wedi cofrestru ar gyfer holl gyfathrebu yr ysgol drwy SiMS ParentApp. Os nad ydych wedi cysylltu neu angen cyswllt newydd, cysylltwch â Mr Denis Pugh: dpu@glantaf.cymru Mae dau riant yn gallu derbyn mynediad i'r app, ond byddwch yn amyneddgar gan y gall gymryd dydd neu ddau i ymateb i bob cais. Rydym hefyd yn falch bod pob plentyn wedi derbyn llyfr cyswllt ar gyfer y flwyddyn sy'n cynnwys amserlen, calendr y flwyddyn, cysylltiadau a gwybodaeth ddefnyddiol. Gofynnwn yn garedig i chi lofnodi'r llyfr cyswllt yn rheolaidd.



Taith Gerdded Chweched Dosbarth

Bydd aelodau'r Chweched Dosbarth yn cwblhau taith gerdded o amgylch Caerdydd ar Ddydd Gwener 16eg o Fedi, er budd elusennau *Oasis* ac Ysbyty Feilndre.

Allgyrsiol: Taith Llangrannog BI 7 ac 8 / Celf a Dylunio BI11-13 i Lundain / Alldaith Dug Caeredin

Nodwch ddyddiad cwrs preswyl Llangrannog ar gyfer BI7 (Hydref 3-5ed) a BI8 (Hydref 5-7fed). Bydd llythyr yn esbonio manylion y daith yn cael ei anfon atoch yn fuan ynghyd â manylion talu ar ParentPay. Ein bwriad yw y bydd pob disgybl yn mynychu'r daith ac os hoffech fanylion cysylltu a chymorth, mae'r manylion oll ar y llythyr. Bydd taith i Oriolau Celf Llundain i fyfyrwr Celf a Dylunio BI11-13 am ddeuddydd 21-22 Medi a bydd alldaith Dug Caeredin (BI 11) ar y Gwyr 22-23 Medi, gyda llythyron gwybodaeth eisioes wedi eu hanfon atoch.

Nosweithiau Gwybodaeth BI 12 a BI8

Byddwn yn cynnal nosweithiau gwybodaeth i rieni drwy *Teams* ar y nosweithiau canlynol. Ymunwch i glywed trefniadau'r flwyddyn a'n cynllun i gynnig cluniadur i bob disgybl yn BI8 (gwahoddiad ar safle *Teams / Hwb* eich plentyn):

Nos Lun, Medi 19	BI 12	6pm yn y Gymraeg	6.30pm yn y Saesneg
Nos Lun, Medi 26	BI 8	6pm yn y Gymraeg	6.30pm yn y Saesneg

Materion ymarferol

Hyfryd dychwelyd at ein rhaglen allgyrsiol, a nodi brwdfrydedd ein disgyblion i'r cyfleoedd rhain. Mae'n braf gweld disgyblion BI7 eisioes yn ymuno yn y gweithgareddau allgyrsiol a chafodd myfyrwyr BI12 hyfforddiant arweinwyr cymar gan gwmni *Elevate* yr wythnos hon. Gallwch weld y cyfleoedd ar gyfrifon trydar yr ysgol. Edrychwch ymlaen at weithio gyda chi'n agos yn y flwyddyn i ddod, ac fel bob amser os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â'r ysgol a dilynwch ein cyfrif trydar @Ysgol_Glantaf

Yn gywir,

Matthew H T Evans

Pennaeth

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf



Tîm XV 1af Glantaf yn fuddugol yn erbyn Coleg y Cymoedd dan arweiniad y capten, Tom Weekley.